


DAVIES, GWILYM ELFED, Barwn Davies o Benrhys (1913-1992), gwleidydd Llafur



Enw: Gwilym Elfed Davies

Dyddiad geni: 1913

Dyddiad marw: 1992

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gwleidydd Llafur

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol

Awdur: John Graham Jones

Ganed ef ym Mhendyrus yng nghwm Rhondda ar 9 Hydref 1913, yn fab i David Davies, glöwr, a Miriam Elizabeth Williams. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol Pendyrus. Gweithiodd fel glöwr ym mhwl glo Pendyrus, 1928-59. Ymunodd â Ffederasiwn Glowyr De Cymru ym 1929, gwasanaethodd yn gadeirydd ei gyfrinfa undeb, 1934-40, ac fel ei thrysorydd, 1940-54. Davies oedd cadeirydd rhanbarth Aberdâr a'r Rhondda o Undeb Cenedlaethol y Glowyr, 1958-59.

Ymunodd Elfed Davies â'r Blaid Lafur ym 1929. Daeth yn aelod gweithredol o Blaid Lafur Etholaethol Dwyrain y Rhondda a Phlaid Lafur Bwrdeistref y Rhondda. Ymunodd hefyd â'r Gymdeithas Gydweithredol Gyfanwerthol (Co-operative Wholesale Society) ym 1940. Roedd hefyd yn aelod o Frigâd Ambiwllans Sant Ioan, 1926-46, yn aelod o Gyngor Sir Morgannwg, 1954-61, ac yn gadeirydd ei bwyllgor llywodraeth leol, 1959-61. Davies oedd AS Dwyrain y Rhondda yn y Senedd rhwng 1959 a 1974 pan ymdeolodd o'r senedd adeg creu un etholaeth unedig sengl ar gyfer cwm Rhondda. Ei olynydd fel AS Llafur y Rhondda oedd **T. Alec Jones**. Etholwyd Davies yn ysgrifennydd Grŵp Seneddol y Glowyr ym 1964, ac ef oedd cadeirydd y Blaid Seneddol Gymreig, 1968-69. Fe fu'n ysgrifennydd seneddol preifat, Tachwedd 1964-Mehefin 1968, i'r Gwir Anrhydeddus R. J. Gunter, y Gweinidog Llafur ac yn ddiweddarach y Gweinidog Ynni. Ym 1974 crewyd ef yn Farwn Davies o Bendyrus (arglwyddiaeth am oes). Roedd yn aelod rhan amser o Fwrdd Trydan De Cymru, 1974-80, ac yn aelod o Gyngor Chwaraeon Cymru o 1978. Gwnaethpwyd ef yn Rhyddfreniwr Bwrdeistref Abertawe ym 1975. Ei ddiddordebau oedd rygbi, pêl droed a chriced. Priododd ar 16 Rhagfyr 1940 Gwyneth, merch Daniel ac Agnes Janet Rees, a bu iddynt ddau fab ac un ferch. Bu ei wraig farw cyn yr Arglwydd Davies. Eu cartref oedd Maes-y-Ffrwd, 18 Ffordd Glyn Rhedynog, Pendyrus yng Nghwm Rhondda. Bu farw yn Ysbyty Llwynypia ar 28 Ebrill 1992 ar ôl dioddef gan glefyd y fron am nifer o flynyddoedd. Llosgwyd ei weddillion yn Amlosgfa Glyn-taf, Pontypridd.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997 (Talybont 1999)

Welsh Hustings - 1885-2004 (Rhydaman 2005)

Western Mail, 29 Ebrill 1992

Darllen Pellach

Archifau LIGC: Rhondda East Parliamentary Division General Election 1970... Gwilym Elfed Davies The Labour Candidate

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q5359883

Dyddiad cyhoeddi: 2008-07-30

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jones, J. G., (2008). DAVIES, GWILYM ELFED, Barwn Davies o Benrhys (1913-1992), gwleidydd Llafur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-DAVI-ELF-1913>



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi'i gynnal gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government